# CYFARFOD BLYNYDDOL Y CYNGOR BRO - COFNODION

**Dydd Mawrth 20fed Mai 2025 – 6:30yh**

**Neuadd Goffa, Llanfairpwll**

**Presennol:**

| **Ward Braint** | | **Ward Gwyngyll** |
|---|---|---|
| Stephen Edwards (Cadeirydd) | | Gareth Cemlyn Jones |
| Alun Jones | | Gwynfor Parry |
| Ian Roberts | | John Roberts |
| Glesni Parry | | Medwyn Roberts |
| | | Meirion Jones |
| **Cynghorwr Sirol:** | Dyfed Jones | |
| **Clerc:** | Gillian Morris | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **1.0** | **Ethol Cadeirydd ac Is Gadeirydd** | | |
| | **Cadeirydd –** John Roberts yn cynnig Stephen Edwards, Medwyn Roberts yn eilio. Stephen Edwards yn derbyn y swydd.<br>**Is-Gadeirydd -** John Roberts yn cynnig Gareth Cemlyn Jones, Mirion Jones yn eilio. Gareth Cemlyn Jones yn derbyn y swydd. | | |
| **2.0** | **Ymddiheuriadau** | **Gweithredu** | **Erbyn** |
| | Bethan Williams<br>**Cynghorwyr Sirol** - Robin Williams, Sonia Williams | | |
| **3.0** | **Datganiadau o Ddiddordeb** | | |
| | Gwynfor Parry – 7.1<br>Alun Jones – 7.1<br>Stephen Edwards – 7.1 | | |
| **4.0** | **Camau Gweithredu o'r Cyfarfod Blaenorol** | **Gweithredu** | **Erbyn** |
| 4.1 | **Cyngor Bro**<br>• Hyfforddiant – Rhaid i bawb gael hyfforddiant statudol. Hyfforddiant arbennig i IW.<br>• Arwydd Gorsaf Drennau – IG yn cyfarthrebu gyda Trafnidiaeth i Gymru.<br>• Cynllun Gweithredu – Prif amcanion Y Cyngor ar gyfer 2025/2026.<br>• SE a'r Clerc i benu dyddiad i gyfarfod gyda IW. | Clerc<br><br>Clerc | Gorffennaf 2025<br><br>MFAPH |
| 4.2 | **Amgylchedd ac Eiddo**<br>• Fynwent Newydd – Wedi derbyn dyfynbris ar gyfer gwaith yn y lleoliad arfaethedig. | Clerc | MFAPH |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Giat ger mynedfa y Rhandiroedd angen sylw- Clerc i gysylltu gyda'r contractwyr i gwblhau y gwaith.<br>• Traffig Llanfairpwll – Penderfynwyd cael cyfarfod cyhoeddus cyn trefnu i gyfarfod gyda Alun Roberts er mwyn cael barn trigolion y pentref. | | |
| 4.3 | **Cyllid**<br>• Benthyciad Clwb Bowlio<br>• Ceisio am grant refeniw i gyflogi unigolyn i chwilio am grantiau ar gyfer y prosiectau sydd ar y gweill. | Clerc | MFAPH |
| 4.4 | **Neuadd Goffa**<br>• Lôn Minffrwd – Parry Davies Clwyd Jones am weithredu gyda diddymu y cytuneb – Wedi derbyn ymateb gan y cyfreithwyr yn datgan bod y mater yn nwylo cyfreithwyr perchennog y ffordd.<br>• Polisiau<br>• Cynllun Busnes<br>• Yswyriant – Clerc i holi pa fath o yswyriant y bydd y Neuadd Goffa ei angen. | Clerc | MFAPH |
| 4.5 | **Y Fynwent**<br>• Fynwent Newydd –Wedi derbyn dyfynbris ar gyfer gwaith yn y lleoliad arfaethedig. | | |
| **5.0** | **Pwyllgorau Allanol - Adroddiadau er gwybodaeth**. | **Gweithredu** | **Erbyn** |
| | **Adroddiad Cynghorwyr Sir –**<br>• Menter Môn - Cyfarfod gyda phrif swyddogion Menter Môn yn ystod y mis i drafod projectau. Prosiect "Ein Hanes Ni" wrthi yn ffilmio rhaglen am hanes Llanfairpwll i'w rhyddhau yn fuan a hefyd fod yna fwy o arian Balchder Bro wedi ei glustnodi (dyma be oedd wedi cyfrannu at Ŵyl Go-Go-Goch llynedd).<br>Llwybr Teithio llesol - Mae'r Gwaith o edrych ar ddatrysiad rhwng y Tolldy a Phen lôn Llan yn parhau, mae'n debyg y bydd angen defnyddio tir sy'n berchen i'r Weinyddiaeth Amddiffyn ar ochr ddeheuol y r A5<br><br>Ydi hi'n amserol felly i edrych ar Lôn Refail a Lôn Graig o ran traffic eto?<br>• Cyfarfod hefo Alun Roberts-Priffyrdd - Ddim yn siŵr os oes dyddiad wedi ei gytuno ar gyfer y cyfarfod hefo Alun eto i drafod sawl agwedd o draffig yn y pentref<br>• Llys Eilian - Dim datrysiad i law ynghylch y palmant (19/5/25) ond y cais i adfer yr arian sy'n ddyledus yn mynd rhagddo. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Cae Creigiar - broblem ynghylch y wal wedi ei difrodi wedi ei adrodd i'r Cyngor Sir a Gwaith ar droed i'w thrwsio<br><br>**Cyfarfod Fforwm Gyswllt –** Adroddiad wedi cael ei chylchredeg.<br>**Cyfarfod Pont Menai** – Adroddiad wedi ei chylchredeg.<br>**Cyfarfod Pecyn Cymorth Chwarae** – Adroddiad wediei chylchredeg. | | |
| **6.0** | **Cyflwyno a chadarnhau cofnodion Cyfarfod Cyngor Bro 29.04.2025** | **Gweithredu** | **Erbyn** |
| 6.1 | Stephen Edwards yn cynnig bod y cofnodion yn gywir, Medwyn Roberts yn eilio. | | |
| **7.0** | **Cyfrifon a Thaliadau Ebrill 2025** | | |
| 7.1 | • Trafodwyd pris camerâu o amgylch Y Gors – cytunwyd i fynd ymlaen gyda'r gwaith ac AJ i gysylltu gyda chwmni band eang.<br>• Trafodwyd pris drysau diogelwch a gwneud agoriad i'r nenfwd yn y Neuadd Goffa – cytunwyd i fynd ymlaen gyda'r gwaith.<br>• Cytundeb Clwb Bowlio – trafodwyd y cytundeb ar ôl derbyn llythyr gan y Clwb. Fe benderfynwyd ar rent o £300.00 dros y ddwy flynedd nesaf gydag adolygiad ar ôl y ddwy flynedd.<br>• Taliadau pwyntiau gwefru i cael ei talu i cyfrif Y Neuadd Goffa. | **Clerc**<br><br>**Clerc** | **MFAPH**<br><br>**MFAPH** |
| 7.2 | • Awdurdodwyd i wneud y taliadau. | | |
| 7.3 | • Clerc yn rhoi diweddariad cyllidol. | | |
| 7.4 | • Cymeradwywyd y datganiad ariannol Blynyddol. | | |
| 7.5 | • Pawb yn gytun i benodi Bleddyn Rhys, Cyngor Gwynedd fel archwilydd mewnol. | | |
| **8.0** | **Ceisiadau Cynllunio** | **Gweithredu** | **Erbyn** |
| | Dim | | |
| **9.0** | **Penderfyniadau Cynllunio** | **Gweithredu** | **Erbyn** |
| 9.1 | 14 Ffordd Gwenllian, Llanfairpwll – wedi ei ganiatau gyda amodau | | |
| 9.2 | 15 Cil Y Graig, Llanfairpwll – wedi ei ganiatau gyda amodau | | |
| **10.0** | **Trafod** | **Gweithredu** | **Erbyn** |
| 10.1 | **Cymeradwyo Rheolau Sefydlog**<br>• Pawb yn gytun i gymeradwyo. | | |
| 10.2 | **Strwythur Pwyllgorau**<br>• Clerc i yrru rhestr pwyllgorau i bawb. | Clerc | MFAPH |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Angen edrych ar aelodau y pwyllgorau, IR yn cynnig efallai i bob Gynghorydd fod ar un pwyllgor yn ogystal a'r Cyngor Bro.<br>• Clerc yn datgan dim ond cymeradwyo cofnodion pwyllgorau sydd ei angen yn cyfarfod Y Cyngor Bro. | | |
| 10.3 | **Seddi Gwag**<br>• Mater wedi ei ohirio nes y cyfarfod nesaf. | Clerc | MFAPH |
| 10.4 | **Fynwent**<br>• Wedi derbyn dyfynbris am y gwaith ar gyfer darn tir yn Rhandir Hedd.<br>• Clerc i gysylltu gyda cwmnïau eraill am brisiau gan ei fod yn aruthrol o ddrud.<br>• Adroddodd Gwynfor Parry ei fod ef a John Roberts wedi ymweld â'r fynwent yn ddiweddar. Amcangyfrifir fod yna tua 40 o lefydd ar ôl yn y fynwent i feddi llawn ond byddai angen cysylltu a'r Clerc rhag ofn fod rhai o'r llefydd yma wedi eu gwerthu. Credir fod hyn yn rhoi ychydig fwy o amser i ystyried datblygiad pellach ac i hel arian ar gyfer y datblygiad. | Clerc | MFAPH |
| 10.5 | **Adroddiad Y Gors**<br>• Nododd Medwyn Roberts fod y 4 gwlâu blodau ar Y Gors wedi tyfu yn wyllt gyda chwyn yn tagu tyfiant blodau. Awgrymodd ail-drin y 2 wely ar y pen a rhoi mainc yn lle y 2 ganol.<br>• Gofynnwyd i Medwyn gael prisiau am y gwaith yma. | | |
| 10.6 | **Cydweithio gyda Sefydliadau**<br>• Dywedodd Glesni Parry fod y rhai sydd yn rhedeg Menter Y Tŵr yn awyddus i ddod draw i siarad gyda'r Cyngor.<br>• Penderfynwyd y buasai Glesni yn trafod gyda'r bobl yma a threfnu dyddiad am gyfarfod yno ac i adael i'r Clerc wybod i gylch-redeg i'r aelodau. | | |
| | Cynhelir y cyfarfod nesaf – 24ain Mehefin 2025 am 6.30yh | | |
| **** DIOLCH YN FAWR IAWN I CHI AM FYNYCHU **** | | | |